PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 21 IONAWR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Carter, Ebrahim, Goddard, Jenkins, Kelloway, Lent a/ac Molik |

53 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw rai. Dywedodd y Cynghorydd Carter y byddai angen iddo adael y cyfarfod am gyfnod byr i fynd i gyfarfod arall.

54 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

55 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

56 : LLETY DROS DRO AC Â CHYMORTH – PORTH PERSON SENGL

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod y cyfarfod wedi'i drefnu i glywed gan ystod o ddarparwyr gwasanaeth ar lety dros dro ac â chymorth mewn perthynas â'r Porth Person Sengl.

Diben y cyfarfod fyddai i'r Aelodau gael dealltwriaeth o'r materion canlynol: Diweddariad ar ddarpariaeth y gaeaf (yn benodol dros y Nadolig); Ydy gwasanaethau'n addas at y diben?; Sut mae hosteli'n cydweithio – ydy'n effeithio?; Llety â chymorth – pa mor effeithio yw e? Pa fath o gymorth sydd ar gynnig?; Ydy pobl sy'n dod trwy'r porth yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt?; I'r Aelodai ddeall cymhlethdodau'r gwasanaeth a'r bobl sy'n ei ddefnyddio.

Byddai'r Aelodau'n clywed gan ystod o gynrychiolwyr ac i ddechrau'r cyfarfod, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne (yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau); Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau); a Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau)

Darllenodd y Cadeirydd e-bost y derbyniodd gan y cyn-gynghorydd Eleanor Sanders yn esbonio'r gwasanaeth a gynigir gan 'Churches Night Shelter' gan nad oedd cynrychiolydd yn y cyfarfod. Nododd yr e-bost fod 'Churches Night Shelter' yn agor eu drysau ddim yn hir cyn y Nadolig gan fod ar agor tan fis Mawrth, maent ar agor mewn eglwysi gwahanol bob nos o 8p tan 8am, gyda thua 20 lle ar gael bob nos; yn y blynyddoedd diwethaf maent wedi gweithio'n agosach gyda Thîm Allgymorth y Cyngor ac un o'u prif nodau yw trio i symud gwesteion i lety mwy parhaol.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thorne i wneud datganiad ac ynddo diolchodd i'r Pwyllgor am y gwahoddiad i fynychu yn rhan o'i adolygiad o ddigartrefedd a'r Porth Person Sengl. Ychwanegodd y byddai'r Aelodau yn ymwybodol fod digartrefedd yn fater cymhleth ac mae gan lawer o'r cleientiaid sy'n

defnyddio'r porth person sengl broblemau cymhleth megis iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad troseddol.

Credodd y Cynghorydd Thorne fod Caerdydd yn lwcus iawn i gael ystod o ddewisiadau llety â chymorth, a ddarperir gan y Cyngor yn uniongyrchol a chan ystod o bartneriaid sy'n ymrwymedig iawn.  Fodd bynnag, mae nifer y bobl sy'n dechrau defnyddio'r gwasanaethau a nifer y bobl sy'n dod yn fwy cymhleth yn rhoi pwysau ar y gwasanaethau hynny.  Mae angen adolygu darpariaeth Caerdydd i wneud yn siŵr ei bod yn bodloni anghenion y cleientiaid ac mae adolygiad Craffu'n dod ar amser cyfleus, cyn ail-gomisiynu rhai o'r gwasanaethau porth person sengl y flwyddyn nesaf a byddai unrhyw sylwadau neu awgrymiadau y mae'r Pwyllgor yn dymuno eu rhoi cyn yr ail-gomisiynu hynny'n cael eu croesawu.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar y Trosolwg o'r Porth Person Sengl ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.
Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am y podiau ac a oes ganddynt ddrysau a gwelyau unigol ac a oes modd eu cloi fel y gellir gadael eiddo personol ynddynt. Dywedodd y swyddogion fod podiau'n amrywio o broject i broject ac y byddai darparwyr yn gallu rhoi mwy o wybodaeth am eu podiau penodol.

Ym marn yr Aelodau, roedd yn ddefnyddiol gweld nifer y bobl yn y porth ond roedd pryderon ganddynt ynghylch nifer sylweddol y bobl nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth; gan ofyn sut mae'r Swyddogion yn ystyried y dylai'r porth weithio, lle mae'r rhwystrau yn y system a faint o amser y dylai pobl ei dreulio ym mhob cam y broses.  Dywedodd y swyddogion, yn ddelfrydol, mai dim ond ychydig o ddiwrnodau mewn llety brys y byddai hyn fod, ond mae'n amrywio'n dibynnu ar alw ac angen a gellir rhoi pobl agored i niwed trwy'r camau hwyrach yn y broses.  O ran hosteli llinell gyntaf, byddai adolygiad ar ôl 6 mis ond mae heriau gyda symud ymlaen megis angen ac argaeledd llety'r ail gam.

Credodd yr Aelodau y gallai'r rhwystrau fod yng nghamau 1 a 2 a gallai prinder cyflenwad y rheng flaen a llety'r ail gam fod yn achosi hyn; pe bai'r cyflenwad hwn yn cael ei ymestyn, gallai rhyddhau llety brys i bobl ar y stryd.  Esboniodd y swyddogion y bydd gan bobl broblemau gyda symud ymlaen am amrywiol resymau ond roedd yn bwysig sicrhau bod digon o lety'r ail gam a'i fod y math cywir o lety.

Credodd yr Aelodau fod y niferoedd mewn perthynas â thai cymorth i bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn isel iawn a gofynnon nhw beth roedd y Cyngor yn ei wneud i gefnogi'r bobl hynny.  Esboniodd y swyddogion eu bod yn gwneud popeth y gallant ar hyn o bryd, bydd yr adolygiad yn gweld a oes angen newid graddfa gyfan; ar hyn o bryd maent yn edrych ar angen ac yn nodi'r ddarpariaeth orau.

Gofynnodd yr Aelodau pryd y byddent yn gwybod bod yr asesiad o anghenion wedi'i wneud a phryd y gwybyddir niferoedd pobl a phwy sy'n cael help.  Dywedodd y swyddogion y byddai'r asesiad anghenion yn cael ei wneud yn y Gwanwyn/yr Haf. Dywedodd yr Aelodau eu bod wedi dweud yn y gorffennol y dylai fod mwy o ymwybyddiaeth o wasanaethau'r Cyngor wedi'u targedu at y Cyngor a gofynnon nhw beth oedd yn cael ei wneud yn hyn o beth.  Dywedodd y swyddogion eu bod yn gweithio ar rannu straeon newyddion da â'r cyhoedd.

Gofynnodd yr Aelodau am yr hyn oedd yn cael ei wneud i bobl sydd wedi nodi nad ydynt am gael hostel neu lety brys.  Amlinellodd y swyddogion y cynllun Tŷ yn Gyntaf a’r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Tîm Allgymorth.  Gofynnodd yr Aelodau a yw'r cynllun Tŷ yn Gyntaf yn llwyddiannus a dywedwyd wrthynt fod 8 person wedi cael tŷ yn llwyddiannus trwy’r cynllun Tŷ yn Gyntaf a bod 3 yn aros; byddai’r cynllun hwn yn cael ei ymestyn y flwyddyn nesaf gyda darpariaeth y Cyngor.

Gofynnodd yr Aelodau a yw’r Porth Person Sengl, er ei fod yn fecanwaith pwysig, yn methu gan fod nifer y bobl sy’n cysgu ar y stryd yn cynyddu.  Esboniodd y swyddogion fod nifer o resymau dros y nifer hwn yn cynyddu gan gynnwys cymhlethdod anghenion cleientiaid sy'n golygu eu bod yn fwy anodd dod o hyd i dŷ iddynt. Mae mwy o bobl wedi bod yn mynd i mewn i lety ond yn genedlaethol mae nifer y bobl sy’n cysgu ar y stryd wedi cynyddu; mae bob amser lle i wella a dyma’r rheswm dros yr adolygiad.

Nododd yr Aelodau fod mentrau newydd yn cael treialu ar sail adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, mae’r rhain ar sail anghenion a'r hyn sydd wedi gweithio’n rhywle arall.

Gofynnodd yr Aelodau a oes rôl fwy i wasanaethau Iechyd ei chwarae a chytunodd y swyddogion fod angen mwy o fewnbwn hirdymor gan y gwasanaethau Iechyd; mae darpariaeth yn cael ei chynnig ar y strydoedd ac mae nyrs ond byddai'r Tîm Amlddisgyblaethol a sefydlwyd yn gallu i arbenigedd fod ar gael yn hygyrch. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cofrestru i wella gwasanaethau i gysgwyr ar y stryd, byddai'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn cymryd rôl fwy actif ac mae ffocws ar bartneriaeth i alinio rolau.

Trafododd yr Aelodau bobl yn dod i Gaerdydd i gysgu ar y stryd o’r tu allan i’r ardal a dywedodd y swyddogion fod ychydig dros draean o bobl sy’n cysgu ar y stryd yn dod o’r tu allan i Gaerdydd, o ardal eang yng Nghymru a Lloegr; caiff pobl eu hasesu ac os ystyrir bod ganddynt angen â blaenoriaeth ac os oes modd nodi eu hawdurdod lleol eu hun, yna byddai cysylltiad.

Croesawodd y Cadeirydd Richard Edwards o ganolfan Huggard gan ei wahodd i siarad gerbron y Pwyllgor.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn yn bwysig iawn ac yn fater cymdeithasol anodd ac er bod Caerdydd yn ffodus i gael cyfleusterau da a lefel dda o ddarpariaeth mae'n bwysig peidio â bod yn hunanfodlon.  Esboniodd Mr Edwards fod Canolfan Huggard yn darparu canolfan ddydd mynediad agored sy’n unigryw yng Nghymru. Yn 2018 roedd wedi gweithio gyda 2174 o unigolion, yn ddiweddar mae'r ganolfan wedi gweld cynnydd o tua 24 o gysgwyr ar y stryd bob mis; ochr yn ochr â chynnydd mewn niferoedd, mae cynnydd hefyd wedi bod yng nghymhlethdod anghenion pobl.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod grŵp cleientiaid Canolfan Huggard wedi newid. Pan ddechreuodd yn 1989, dynion canol oed gyda dibyniaeth ar alcohol yn bennaf oedd y grŵp cleientiaid. Yn ddiweddar, mae cynnydd enfawr wedi bod yn y defnydd o gyffuriau ac mae cleientiaid yn iau ac yn aml mae ganddynt broblemau iechyd meddwl, y maent wedi’u dioddef oherwydd defnyddio cyffuriau.  Esboniodd Mr Edwards fod hyn yn cysylltu â materion llinellau cyffuriau, lle mae cyffuriau'n cael eu cludo i ddinasoedd ac mae pobl yn cael eu hecsbloetio. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gan Ganolfan Huggard 1 swydd Iechyd sy’n rhoi cymorth o ran camddefnyddio sylweddau.  Yn 2018, cafodd 83 o bobl eu cefnogi i ddefnyddio gwasanaethau triniaeth a chafodd 198 o bobl ychwanegol at y gronfa ddata gyfnewid nodwyddau/camddefnyddio.  Pwysleisiwyd fodd bynnag fod angen

mwy o fewnbwn gan y gwasanaethau Iechyd. Dywedwyd wrth yr Aelodau am y cydberthyniad rhwng caethiwed/camddefnyddio sylweddau a gwaith rhyw/cardota ar y stryd a dywedwyd wrthynt fod rhai pobl yn defnyddio gwasanaethau Huggard yn ystod y dydd ond eu bod yn ôl ar y stryd gyda'r nos gan fod hyn yn fwy enillfawr. Nododd yr Aelodau, er mwyn ennill cydymdeimlad ac arian, fod pobl yn aml yn darlunio argraff negyddol o'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ddigartref; esboniodd Mr Edwards fod digon o lety yng Nghaerdydd – ond mae'r mathau o lety'n gyfyngedig ac yn aml yn gyffredin o'u natur.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Edwards am siarad gerbron y Pwyllgor a gofynnodd am gwestiynau neu sylwadau gan Aelodau;
Trafododd yr Aelodau y rhaglen gyfnewid nodwyddau a nododd nhw fod tua 20 litrau o nodwyddau'n cael eu casglu bob dydd. Nododd yr Aelodau, ers rhoi rhaglenni o'r fath ar waith, mae gostyngiad wedi bod mewn clefydau yn y gwaed; ond nododd yr Aelodau fod problem diogelwch cymunedol ehangach o ran nodwyddau'n cael eu gadael ar y stryd. Cytunodd Mr Edwards fod y rhaglen gyfnewid nodwyddau'n hollbwysig i bawb yn y gymuned, gan gynnwys y rheiny mewn gwaith rhyw ar y stryd; gan ychwanegu fod nodwyddau sy'n cael eu rhoi'n rhai un tro gyda chloeon sy'n ddiogel os cânt eu gadael. Pwysleisiwyd bod angen mwy o fuddsoddi gan y Gwasanaethau Iechyd i roi'r cyngor cywir ar leihau niwed. Esboniodd Mr Edwards na allai ganiatáu defnyddio cyffuriau yng Nghanolfan Huggard, felly mae pobl yn cael eu gyrru at y strydoedd i gymryd eu cyffuriau; esboniodd yr hoffai weithio gyda nhw i stopio hyn ac i fynd i'r afael â'r mater diogelwch cymunedol ehangach a helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau ond symudiad mentrus fyddai hyn a byddai angen arno newidiadau i'r gyfraith.

Esboniodd Aelodau yr oedd wedi darllen erthygl gyda chysgwyr ar y stryd oedd wedi dweud bod cyffuriau yng Nghanolfan Huggard yn gyffredin a gofynnon nhw a oedd hyn y gywir. Esboniodd Mr Edwards eu bod yn delio gyda cleientiaid cymhleth gydag ymddygiad troseddol yn aml, pe nad oeddent yn delio gyda nhw yng Nghanolfan Huggard yna byddent yn ôl ar y strydoedd; ond maent yn ceisio cynnig yr amgylched diogelaf; mae digon o staff ac mae TCC o fewn ac y tu allan i'r adeilad sy'n recordio trwy'r amser; mae TCC isgoch yn yr ystafelloedd cysgu cyffredin; caiff unrhyw broblemau eu hadrodd i'r Heddlu ac ni chaniateir delio cyffuriau o gwbl a rhoddir gwybod i'r sgwad cyffuriau'n syth. O ran lladrad, mae 49 coffor personol i gleientiaid eu defnyddio, nid ydynt yn hunanfodlon, maent yn ymwybodol bod risgiau uchel ond maent yn cymryd camau i sicrhau bod pobl yn teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn ddiogel.

Trafododd yr Aelodau'r hyn y gellir ei wneud i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn defnyddio cyffuriau. Esboniodd Mr Edwards fod pobl ar y strydoedd yn agored iawn i ecsploetiaeth a phwysau gan gyfoedion a bod angen mwy o adnoddau i gefnogi a chynghori pobl ar y pwynt cyfnewid nodwyddau, i'w cael i ddefnyddio gwasanaethau'n gyflymach.

Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am sut maent yn rhagweld cael pobl sy'n gaeth i gyffuriau i ddefnyddio'r gwasanaeth? Esboniodd Mr Edwards fod cyfreithiau cyffuriau cyfredol yn mynd yn ôl i'w 1970au ac mae'r rhain yn rhwystr cyfreithiol. Byddai'r symudiad gwleidyddol mentrus ar draws Llywodraeth Cymru, yr Heddlu, Awdurdodau Lleol a'r gwasanaeth Iechyd i archwilio "Canolfannau Lleihau Trosedd Uwch", ond credodd y byddai lle diogel i bobl ddefnyddio eu cyffuriau gyda chefnogaeth feddygol yn amddiffyn eu bywydau a'r gymuned ehangach, yn cael

effaith gadarnhaol ar y defnydd o gyffuriau ac yn lleihau marwolaethau oherwydd cyffuriau a sbwriel cyffuriau cyhoeddus.

Gofynnodd yr Aelodau am rôl yr Heddlu a gofynnon nhw sut na chaiff pobl sy'n agored i niwed eu troi'n droseddwyr ond yr eir i'r afael â gwthwyr cyffuriau. Esboniodd Mr Edwards fod cytundeb ar waith rhwng yr Heddlu/Llywodraeth Cymru o ran meddu ar gyffuriau.

Gofynnodd yr Aelodau beth oedd ar waith i helpu menywod ar y strydoedd a pha waith penodol sy'n cael ei wneud o ran y fasnach rhyw ar y stryd. Esboniodd Mr Edwards fod nifer o brojectau arbenigol ar waith i fenywod sy'n rhan o'r fasnach rhyw ar y stryd. Mae anghenion cymhleth iawn a chymerir dull amlasiantaeth. Caiff menywod mewn hosteli eu gwahanu a'u cefnogi, gyda chwnsela a gwasanaethau cofleidiol yn cael eu darparu lle bo'n bosibl.

Croesawodd y Cadeirydd Yvonne Connolly a Laura Carey o Fyddin yr Iachawdwriaeth a fe'u gwahoddodd i wneud eu cyflwyniad i'r Pwyllgor, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau sut mae Byddin yr Iachawdwriaeth yn cydweithio gyda hosteli eraill a dywedwyd wrthynt fod y tîm rheoli ar gyfer hosteli'r rheng flaen yn cyfarfod bob mis, maent yn rhannu ac yn dysgu ac mae eiriolaeth yn cael ei datblygu trwy'r fforwm hwn. Mae llawer o symudiadau a chyfnewidiadau rhwng hosteli ac mae perthnasau rhyngddynt yn gryf iawn.
Cyfeiriodd yr Aelodau at gymorth yn ôl yr angen a bod 91% o bobl yn gadael cymorth llawn a gofynnon nhw faint o bobl mae hyn yn cyfeirio atynt. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn cynrychioli 256 o bobl y chwarter diwethaf ac ar hyn o bryd maent yn gweithio gyda 92 person/teulu/cwpl.
Trafododd yr Aelodau pa mor hir y byddai cleient yn ei dreulio yn Nhŷ Gobaith a pha mor hawdd yr oedd iddynt symud at fath arall o lety. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod llety symud ymlaen yn her i bawb; o ran amserlen roeddent yn gweithio ar egwyddor 6 mis, gydag adolygiad ar ôl 6 mis; ar gyfartaledd 8 mis oedd yr amser. Ychwanegwyd bod y gwasanaeth wedi newid yn fawr a'i fod bellach yn cynnwys mwy o wasanaethau cofleidiol a chymorth.
Gofynnon yr Aelodau beth fyddai'r flaenoriaeth o ran cyllid pe bai mewnlif o grantiau buddsoddi. Dywedodd Ms Connolly fod catalog o bethau, mae angen ar y Ddinas ddull dinas gyfan ac er bod cryfderau ym mhob gwasanaeth, mae hefyd angen siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gael gwybod pam (er enghraifft) nad ydynt yn teimlo'n ddiogel neu ddefnyddio gwasanaethau. Gallai'r rhain fod yn sgyrsiau anodd i'w cael ond roedd yn bwysig gwrando ar bobl a myfyrio. Mae angen i Dŷ yn Gyntaf fod ar gynnig i bobl.

Gofynnodd yr Aelodau am y Strategaeth Gomisiynu, faint o amser oedd ei angen i'r strategaeth weithio. Dywedodd Ms Connolly fod mater cenedlaethol o ran comisiynau cylchau ond 7-9 mlwydd oed ddylai'r sylfaen fod i alluogi buddsoddi mewn adeiladau a gwasanaethau er mwyn sefydlu sefydlogrwydd.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw welyau sbâr yn Nhŷ Gobaith, beth oedd y newidiadau ac a oes unrhyw broblemau mewn perthynas â derbyn taliadau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Tŷ yn 97% yn llawn a bod y 3% arall yn ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio oherwydd yr angen i'w hatgyweirio. Mae'r holl atgyfeiriadau'n dod trwy'r Porth Person Sengl. Ar hyn o bryd y prisoedd yw £13

hunanarlwyo; £31 hanner bwrdd.  Mae ôl-ddyledion taliadau yn eithaf uchel ac mae hyn yn parhau i fod yn her, ac maent yn gweithio gyda'r Ganolfan Swyddi i edrych ar unrhyw faterion gydag ôl-ddyledion.

Gofynnodd yr Aelodau a yw Tŷ Gobaith wedi gweld cynnydd yn y defnydd o gyffuriau a theuluoedd sy'n chwalu.  Dywedodd Ms Carey fod cynnydd wedi bod yn y defnydd o gyffuriau ond y math o gyffuriau a'u heffaith oedd wedi bod y newid sylweddol, rhoddwyd enghraifft o'r cyflwyniad ffisegol o rywun yn cymryd SPICE mewn cyferbyniad â herion a'r effaith feddyliol a chorfforol enfawr mae'n ei chael.  Dywedwyd fod Caerdydd yn cymharu'n eithaf da gyda dinasoedd eraill mewn perthynas â marwolaethau oherwydd cyffuriau ac mae ganddi raglenni gyfnewid nodwyddau a lleihau niwed da.  Gyda theuluoedd sy'n chwalu, mae cynnydd sylweddol wedi bod; mae canolfan y Northlands yn gweld effaith syth hyn ac maent yn gweithio gyda theuluoedd ac yn cynnig seibiant a chymorth.

Gofynnodd yr Aelodau sut mae Tŷ Gobaith yn delio gyda chadw nodwyddau a dywedwyd wrthynt eu bod wedi rhoi allan 658 o nodwyddau ac wedi derbyn 5000 yn ôl felly mae'r gyfradd dychwelyd yn dda.  Hefyd mae yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod unrhyw nodwyddau wedi'u gadael y rhoddir gwybod amdanynt yn cael eu clirio'n gyflym.

Croesawodd y Cadeirydd Gareth Jones a Sian David o ganolfan Wallich gan eu gwahodd i siarad gerbron y Pwyllgor.
Dywedwyd wrth yr Aelodau y sefydlwyd y Wallich yn 1997, maent yn delio gyda tua 31 o gleientiaid ar y stryd, ond 40 yn yr wythnos ddiwethaf.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, mewn perthynas ag ymyrraeth Cysgu ar y Stryd, o ganlyniad i ddiogelwch cerddwyr, na all y Wallich gael mynediad at Heol-y-Frenhines ar hyn o bryd.

Mae llety brys a rhywfaint o lety arall yn y sector rhent preifat.  Mae'r Lloches Nos yn ymestyn i 22 o leoedd ac mae tŷ Clare Road yn ailagor.  Mae'r Wallich yn llawn.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai 3 wythnos mae pobl yn aros ar gyfartaledd.

Mae gan y Wallich Dîm Tŷ Cymunedol gyda phroject dau ddiagnosis ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cynnig amgylchedd seicolegol gytbwys cydgytûn.

Yn y gorffennol, roedd tua 30 o ddigwyddiadau y mis, ond bellach mae dim ond 2/3.

Mae'r Wallich wedi cyflwyno nifer o fentrau – trwy gyllid LIC, mae rhwydwaith o therapyddion; maent yn delio gyda nifer mwy o gleientiaid gyda Phrofiadau Plentyndod Negyddol; mae angen cynyddu gwasanaethau therapiwtig.

Nod allweddol yw cael cyflogaeth neu gyfleoedd gwirfoddoli i gleientiaid – trwy gwnsela a therapi.

Mae gan 25% o'r staff sy'n gweithio i'r Wallich wedi Profi Digartrefedd.

Mae'r Wallich yn rhan o Dŷ Tarian, mewn partneriaeth â'r YMCA sy'n cynnig lle 5 gwely arbenigol.

Mae'r Wallich hefyd wedi cynnal nifer o weithrediadau symudol megis gwasanaethau amlddisgyblaethol a chanolfan iechyd symudol sy'n mynd ag ystafell feddygol i bobl

sydd ei hangen. Maent yn edrych ar wahanol fathau ac yn ymgysylltu â phobl trwy'r nos, gan adeiladu ffydd ac arwain pobl i wasanaethau.

O ran y demograffeg, ar ddechrau'r 1990au, grwpiau o bobl â dibyniaeth ar alcohol oedd hyn yn benodol; cleientiaid o hyd ydy'r rhain ond maent yn cael tŷ ac yn cael eu cefnogi yn y gymuned yn rhan o'r project Shoreline.

Diolchodd y Cadeirydd i Gareth Jones a Sian David gan wahodd cwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am y materion a wynebir mewn perthynas â mynd at bobl mewn pebyll ar Heol-y-Frenhines a dywedwyd wrthynt y gofynnwyd iddynt beidio â mynd â'u cerbydau ar Heol-y-Frenhines gan fod hyn yn achosi problem iechyd a diogelwch i gerddwyr, yn benodol yn ystod amser brecwast.

Gofynnodd yr Aelodau, mewn perthynas â'r project Shoreline, a yw landlordiaid yn wrthwynebol i risgiau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y mater yn un dadleuol". Ar hyn o bryd mae'r Wallich yn adolygu eu polisi cyffuriau, ac mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gefnogol iawn. Nid yw'r Wallich am eithrio pobl gyda phroblemau cyffuriau, maent am weithio gyda nhw ond gall landlordiaid fod yn gyfyngedig, mae'n fater anodd ond mae angen dull a fesurir.

Cyfeiriodd yr Aelodau at breswylwyr a gofynnon nhw am yr hyn sy'n cael ei gynnig i gael mwy o bobl y tu mewn yn ystod y dydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau eu bod yn annog gwirfoddoli ac maent wedi datblygu cynllun mentora cyfoedion. Maent yn ymgysylltu â phreswylwyr i gael gwybod beth yw eu nodau, eu hanghenion ac ati. Maent yn gweithio gyda chyflogwyr mewn perthynas â chofnodion troseddol a mynd i'r afael â diffygion sgiliau.

Cafodd yr Aelodau eu calonogi i glywed am ganlyniadau a llwyddiannau, ond roeddent yn tybio a oedd hyn o ganlyniad i niferoedd bach. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad yw un peth yn addas i bawb, ac nid yr ateb hirdymor yw hosteli; roedd yn anodd dweud beth fyddai'r sefyllfa pe na bai ystod o ddewisiadau ar gael.

Gofynnodd yr Aelodau a yw'r gwasanaethau a ddarperir yn dod yn fwy cymhleth ac a oes risg o orgymhlethu pethau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Tŷ yn Gyntaf yn beth yr ymchwiliwyd ynddo'n dda a'i fod yn fenter wedi'i phrofi. Nid yw arloesedd yn cael ei ddatblygu er ei mwyn hi. Mae partneriaethau a chydweithio yn allweddol ynghyd â dysgu a symud yn barhaol.

Gofynnodd yr Aelodau a yw Caerdydd yn ddiffygiol mewn perthynas ag arloesi lleol a dywedwyd wrthynt fod llawer o arloesi. Problem fawr yw diffyg cyflenwad yn y sector rhent preifat a'r sector tai cymdeithasol i symud pobl ymlaen o hosteli.

Gofynnodd yr Aelodau a yw'r strategaeth gomisiynu'n cefnogi'r 3ydd sector. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad yw hynny'n gywir, nid yw ariannu tymor byr yn ffafriol i gynllunio a datblygu gwasanaethau. Mae hefyd yn rhoi sefydliadau llai o dan fantais. Y gobaith oedd y byddai'r tîm amlddisgyblaethol yn ddatblygiad mawr yn y gwaith o fynd i'r afael â hyn.

Gofynnodd yr Aelodau a oes digon o wasanaethau ar gyfer cleientiaid diagnosis dwbl/lluosog a dywedwyd wrthynt y gall fod yn anodd trefnu gwasanaethau - yn benodol comisiynu ar draws y maes iechyd, tai a'r system cyfiawnder troseddol.

Croesawodd y Cadeirydd Tamsin Stirling, Ymgynghorydd Allanol Tai Annibynnol gan ei gwahodd i siarad gerbron y Pwyllgor.

Dywedodd Ms Stirling wrth yr Aelodau ei bod yn byw yn Sblot a'i bod yn Arbenigwr Tai Llawrydd sydd wedi bod yn rhan o Ddatblygu Polisi Deddf Tai Cymru 2014 ac roedd Digartrefedd yn rhan o hynny.
Fel trigolyn roedd yn drist gweld y newid yn y Ddinas, yn benodol gyda'r pebyll a dywedodd na ddylid derbyn hyn fel mae pethau. Amlinellodd nifer o bethau yr oedd yn ystyried eu bod yn bwysig, gan gynnwys;
Roedd yr angen i ymgysylltu â phobl ar y stryd; yr Ymgyrch CAERedigrwydd yr oedd yn credu ei bod ond yn ddefnyddiol i bobl sy'n ymgysylltu â'r system; materion yn ymwneud â thrais a stigma i'r bobl sydd ar y strydoedd; yr angen i unigolion addysgu eu hunain fel dinasyddion yn brif ystyriaethau. Mae hefyd angen cydlynu ymdrech yn well trwy'r Sefydliad Fframweithiau (CRISIS), partneriaethau a sefydliadau o fewn iddo yn defnyddio eu cryfderau trwy gomisiynu a chyflawni canlyniadau; cyd-gynhyrchu gwasanaethau; ac roedd datblygu'r rhain gyda defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr yn allweddol wrth fynd ymlaen. Amlinellodd ymchwil a thystiolaeth gan roi trosolwg o ffynonellau mewn perthynas â mesurau ataliol, pobl sy'n gadael y carchar, pobl sy'n cysgu ar y stryd yn Lloegr a'r Alban; ffynonellau rhyngwladol a allai fod yn hollbwysig yn y gwaith o ddatblygu polisi ac arfer.

Diolchodd y Cadeirydd i Tamsin Stirling gan wahodd cwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;
Gofynnodd yr Aelodau a ellir cymharu'r hyn sy'n digwydd yng Nghaerdydd â'r hyn sy'n digwydd mewn dinasoedd eraill (megis Los Angeles) ac a yw'r amser derbyn bod argyfwng go iawn yng Nghaerdydd. Dywedodd Ms Stirling, o ran graddfa'r broblem, mai'r ateb yw na. Mae pebyll yn dod yn broblem ac mae Diwygio Lles wedi cael effaith enfawr, ond yn y DU ni fyddai'r mathau o "waredu" yr oedd yn LA i gyflawni effaith tymor byr gan nad oedd hyn yn defnyddiol ac ni weithiodd.

Gofynnodd yr Aelodau i Ms Stirling a yw'n credu bod hyn yn droell gymhleth. Credodd Ms Stirling fod y system wedi dod yn gamweithredol yn benodol mewn perthynas â nifer/ystod llety myfyrwyr ond nid tai cymdeithasol yn y Ddinas. Credodd fod angen edrych ar y farchnad tai a digartrefedd ynghyd.

Gofynnodd yr Aelodau am gysgwyr ar y stryd, a yw unrhyw ymchwil sy'n nodi unrhyw gynlluniau sy'n gweithio ac a yw cynnydd yn nifer y cysgwyr ar y stryd. Dywedodd Ms Stirling wrth yr Aelodau fod Tŷ yn Gyntaf yn enghraifft o arfer da ac ydy, mae mwy o gysgwyr ar y stryd i'w gweld ar hyn o bryd.

Trafododd yr Aelodau cyflenwad a galw a gofynnon nhw a oes cydberthyniad rhwng angen tai a digartrefedd. Credodd Ms Stirling fod cydberthyniad, ond mae hefyd angen herio seicoleg bodau dynol ynghylch cysgwyr ar y stryd a siapio canfyddiadau cyhoeddus o gysgwyr ar y stryd. Credodd Ms Stirling fod dideimlad seicig a mae angen symudiad tuag at "Gaerdydd fwy caredig".

Croesawodd y Cadeirydd Ian Ephraim o Dŷ Tresillian a Thîm Allgymorth Canol y Ddinas gan ei wahodd i wneud ei gyflwyniad i'r Pwyllgor ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau.
Nododd yr Aelodau y cyfeiriad at 5 cysgwr ar y stryd mewn un diwrnod, gyda 4 yn cynrychioli a gofynnon nhw pam mae hyn wedi digwydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau y daeth 1 o Lundain; 2 o Gasnewydd yr oedd gan un ohonynt gysylltiad lleol.

Gofynnodd yr Aelodau a oes unrhyw faterion gyda llety "symud ymlaen" a dywedwyd wrthynt mai'r amser y mae pobl yn aros ar gyfartaledd yw 6 mis, ond, i rai, gall gymryd mwy na flwyddyn i ddod o hyd i lety addas iddynt.

Gofynnodd yr Aelodau ble mae'r tîm Amlasiantaeth wedi'i leoli a dywedwyd wrthynt ei fod wedi'i leoli yn y Ganolfan Dewisiadau Tai ond mae'n ymgysylltu â darparwyr eraill hefyd a bydd yn ymgysylltu â chysgwyr ar y stryd hefyd.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne (yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau); Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau); a Jane Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau) ac wedi clywed tystiolaeth gan ddarparwyr gwasanaeth, fe'u gwahoddwyd gan y Cadeirydd i sylwi ar rai o'r materion wedi'u codi.

Myfyriodd y swyddogion ar yr hyn oedd wedi'i gyflwyno a chredon nhw ei bod wedi bod yn drafodaeth ddiddorol gyda themâu a thystiolaeth gyffredin gan gynnwys;

Dulliau partneriaeth y mae angen system gyfan arnynt; amrywiaeth o ddarpariaeth; cydlynol; nid yw un peth yn addas i bawb;

Dull wedi'i lywio gan drawma;

Roedd cydgomisiynu ar draws y gwasanaethau iechyd, yr heddlu a'r Cyngor yn hollbwysig;

Mae'n sefyllfa gymhleth iawn, ond roedd parodrwydd i ddod o hyd i atebion;

Roedd problemau mewn perthynas ag ariannu tymor byr ac mae angen iddo o fod yn gynaliadwy;

Mae angen adolygu trefniadau comisiynu gan fod angen gwneud pethau'n wahanol;

Mae angen mwy o waith mewn perthynas â chyfathrebu;

O ran partneriaid, mae angen adeiladu perthnasau a mynd i'r afael â materion ynghylch "cystadleuaeth";

Angen go iawn i ddeall pam nad yw pobl yn ymgysylltu â gwasanaethau.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau terfynol;

Gofynnodd yr Aelodau am broblemau gyda stoc tai ac fel landlord cymdeithasol, oes mwy y gall Caerdydd ei wneud gyda chymdeithasau tai. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod bron yr holl lety'n cael ei ddarparu trwy Gymdeithasau Tai.

Nododd yr Aelodau nad oedd y swyddogion yn ymwybodol o'r problemau'n ymwneud â mynediad at Heol-y-Frenhines.

Nododd yr Aelodau fod canfyddiad bod cysgwyr ar y stryd yn osgoi gwasanaethau a gofynnon nhw a oes modd gwneud mwy i ddefnyddio a hyrwyddo hostel "diogel" i'r rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl. Cytunodd y swyddogion bod angen iddynt fonitro hyn.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor mewn adroddiad wrth drafod y ffordd ymlaen.

57 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

58 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Craffu’r Gyllideb - 18 Chwefror 2019 am 4.30pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd

59 : CYFLWYNIADAU

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25 pm